

CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL SIR GAERFYRDDIN CYNLLUN GWEITHREDU AR GYFER Y CWTIAD TORCHOG BACH

Cyflwyniad

Ymwelydd haf â Chymru yw'r (*Charadrius dubius*) – fel arfer mae'n cyrraedd ym mis Mawrth ac yn ymadael ym mis Mehefin/Gorffennaf. Mae'n nythu ar draethellau graeanog ac yn bwydo ar bryfed a'u larfae, ynghyd â chorynnod, molysgiaid bach a mwydod.



Crafiad bas yn y ddaear wedi'i leinio â cherrig mân neu ddeunydd planhigion yw nyth y cwtiad torchog bach. Mae'r wyau yn y nythod agored hyn yn hawdd iawn eu hysglyfaethu felly cânt eu cuddliwio'n dda – maen nhw'r un lliw â cherrig gyda llinellau tywyll arnynt.

Y cofnod cyntaf o'r cwtiad torchog bach yn y Deyrnas Unedig oedd ger cronfa ddŵr Tring (Swydd Buckingham) yn 1938 ac mae'r niferoedd sy'n bridio wedi cynyddu'n gyson ers hynny. Yn Lloegr y ceir y mwyafrif o gwtiaid torchog bach er bod y boblogaeth yn ôl pob tebyg yn ymledu tua'r gorllewin a'r gogledd.

Cofnodwyd cwtiaid torchog bach gyntaf yn Sir Gaerfyrddin yn 1984 gyda'r cofnod cyntaf iddynt fridio'n llwyddiannus yn 1986, yn bridio ar draethellau graeanog afon Tywi. Mae'r boblogaeth wedi ehangu'n gyflym. Yn 2004 cyfrifwyd 62 o barau bridio yn nalgylch afon Tywi, ac yn 2007 roedd hyn wedi cynyddu i 76 pâr. Roedd y rhan fwyaf o'r parau wedi'u lleoli ar hyd afon Tywi (tua 60); gyda'r gweddill ar y ddwy brif lednant, afon Cothi ac afon Brân.

Nid yw'r cwtiad torchog bach yn bridio ar afonydd eraill yn y sir megis afon Teifi ac afon Llwchwyr er bod yno leiniau graeanog. Nid yw'r rhain yn ddigon helaeth nac yn ddigon agored a rhydd o lystyfiant ar gyfer nythu. Prin yw'r union gynefin sy'n ofynnol ar hyd llawer o afonydd a dim ond nifer fach o afonydd yng Nghymru sy'n diwallu anghenion y rhywogaeth. Efallai mai cyfyngedig yw'r posibilïadau i'r cwtiad torchog bach sefydlu nythfeydd oherwydd y gystadleuaeth o du cwtiaid torchog a hyd yn oed biod môr.

Mae poblogaeth Sir Gaerfyrddin o gwtiaid torchog bach yn 10% yn fras o boblogaeth fridio'r Deyrnas Unedig, sydd eto'n amlgu pwysigrwydd y sir o ran rhagolygon yr aderyn hwn i'r dyfodol. Mae afon Tywi wedi'i rhestru'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig o ran y rhywogaeth hon ond nid yw afonydd Cothi a Brân wedi'u cynnwys yn y dynodiad hwnnw. Maen nhw hefyd wedi bridio o bryd i'w gilydd ar safleoedd tir llwyd eang ar y maes glo.

Mae'r nythod a'r cywion o dan fygythiad hefyd oherwydd llifogydd a'r perygl i wartheg sy'n cerdded ar draws y traethellau graeanog sathru arnynt. Mae teulu'r frân yn ysglyfaethu arnynt hefyd ac mae codi graean yn anghyfreithlon ar hyd afon Tywi yn golygu nad yw'r boblogaeth yn Sir Gaerfyrddin yn saff o bell ffordd.

Datganiad gweledigaeth ac amcanion

Y weledigaeth o ran y cwtiad torchog bach yn Sir Gaerfyrddin yw gweld y boblogaeth yn cynyddu ar gynefin sy'n cael ei reoli'n ystyriol, gan ei alluogi i ymledu'n ehangach. Byddai unrhyw gamau a gymerir yn ceisio cyflawni un neu ragor o'r amcanion isod:

LRP1 Cynnal a chynyddu maint a dosbarthiad y boblogaeth o gwtiaid torchog bach yn Sir Gaerfyrddin

LRP2 Casglu data am ddosbarthiad a statws cwtiaid torchog bach yn Sir Gaerfyrddin

LRP3 Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y cwtiad torchog bach yn Sir Gaerfyrddin a darparu cyngor ar reoli cynefin

Crynodeb o'r camau sydd wedi'u cyflawni gan Bartneriaid y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (i gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r swyddog bioamrywiaeth – Bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk) neu ewch i'r System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth genedlaethol - <http://ukbars.defra.gov.uk>:

2010–12

- Codi ffensys i amddiffyn adar a oedd yn nythu ar 3 traethell raeanog ar hyd afon Tywi† –Cyngor Sir Caerfyrddin/Tywi Afon yr Oesoedd LRP1
- Monitro achlysurol ar y boblogaeth ar hyd afon Tywi – Clwb Adar Sir Gaerfyrddin/gwirfoddolwyr LRP2
- Cynhyrchwyd taflen wybodaeth ar gyfer tirfeddianwyr gyda chynghor ar reoli cynefin – Tywi Afon yr Oesoedd LRP3
- Darparu gwybodaeth i glybiau genweirio am y cwtiad torchog bach - Cyngor Sir Caerfyrddin LRP3

2013


- Monitro achlysurol ar y boblogaeth ar hyd afon Tywi – Clwb Adar Sir Gaerfyrddin/gwirfoddolwyr LRP2

Gweithredu arfaethedig ar gyfer y dyfodol

- Ysgrifennu at dirfeddianwyr ynglŷn â chodi graean ar hyd afon Tywi ac effeithiau posib hynny - Cyfoeth Naturiol Cymru LRP3
- Annog cofnodi'r cwtiad torchog bach – Cyngor Sir Caerfyrddin LRP3

Dolenni defnyddiol:

- Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar – [y cwtiad torchog bach](#)
- Yr Ymddiriedolaeth Natur – [y cwtiad torchog bach](#)





Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire Biodiversity Partnership
 www.carmarthenshirebiodiversity.co.uk

Mae'r sefydliadau canlynol yn rhan o [Bartneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin](#):
[Cyngor Sir Caerfyrddin](#), [Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru](#), [Cyfoeth Naturiol Cymru](#), [Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar](#), [Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir](#), [Clwb Adar Sir Gaerfyrddin](#), [Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru](#), [Gwarchod Glöynnod Byw](#), [Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Gaerfyrddin](#), [Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol](#), [Cymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain](#), [Naturiaethwyr Llanelli](#), [Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystumod](#), [Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru](#), [Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid](#)